**TRO TREFRIW 5** - O'r maes parcio gyferbyn â'r Felin Wlân trowch i'r dde i'r ffordd fawr ac ewch dros y bont. Ymhen y bont trowch i'r chwith i fyny'r allt, ac ar ôl 30m fe welwch chi, ar y chwith, lwybr wedi'i farcio. Dilynwch y llwybr hyd at Raeadr y Tylwyth Teg. Fan hyn mae'r llwybr yn troi yn ôl arno'i hun ac yn arwain at y bont droed (Pont Peniel) uwchben. Dilynwch y llwybr ar draws y bont, ac ewch yn syth yn eich blaen i gyrraedd y ffordd. Daliwch yn syth yn eich blaen i fyny'r bryn, gan droi i'r dde i fyny'r grisiau. Dringwch y grisiau i'r ffordd, wedyn trowch i'r dde. Ar ôl oddeutu 30m mae llwybr wedi'i farcio'n arwain i ffwrdd i'r chwith. Dilynwch y llwybr ar i fyny drwy goedwig gymysg. Pan gyrhaeddwch chi gyffordd yn y llwybrau, ewch ar hyd y llwybr isaf i'r dde. Mae'r llwybr yn dringo uwchben Dyffryn Crafnant; mae sawl golygfa dda i'w gael oddi yma o'r dyffryn ac o adeiladau gwaith mwynau'r Klondyke islaw. Mae'r llwybr yn arwain yn ei dro at lwybr gwastad lle'r oedd orsaf uchaf rhaffordd gwaith y Klondyke, sydd i'w weld yn amlwg islaw.

Dilynwch yr hen dramffordd, ac ar ôl croesi dwy gamfa byddwch yn cyrraedd Llyn Geirionydd. Ewch drwy'r giât mochyn a draw at Gofeb Taliesin. Wedi cyrraedd y Gofeb, ewch i'r dde ar hyd y llwybr, glaswelltog i gychwyn, oddi wrth y llyn, a dringwch dros gamfa ysgolion (mae marciau llwybr). Dilynwch y llwybr i'r chwith o gwmpas swch y mynydd, drwy wal ac adfeilion adeiladau'r chwarel. O fan hyn mae ffordd goedwigaeth lydan yn arwain i lawr at ffordd Llyn Crafnant a'r maes parcio. Ewch i'r chwith ac i fyny'r ffordd oddeutu 350m at Lyn Crafnant.

O ben y llyn cerddwch yn ôl i lawr y ffordd i gyfeiriad Trefriw am oddeutu 2km nes cyrraedd arwydd llwybr troed yn pwyntio i'r dde. Dilynwch y llwybr i lawr at bont ar draws y Crafnant. Ewch dros y gamfa a dilynwch y ffens at lwybr gro llydan lle byddwch yn troi i'r chwith. Dilynwch y llwybr llydan am 500m, lle byddwch chi'n gweld pont bren ar eich ochr chwith. Wrth y bont, trowch i'r dde oddi ar y llwybr gro ac i lwybr troed wedi'i farcio. Dilynwch hwn drwy giât i gae. Trowch i'r chwith ar hyd y llwybr ac i'r adwy i'r cae nesaf. Croeswch y cae, ac mae'r llwybr yn parhau drwy goed bach wrth yr afon, ar draws cae, ac yna'n dod allan wrth gae chwarae plant. Ewch i'r chwith ar hyd y ffordd, i lawr at gyffordd lle bydd angen mynd i'r chwith ar draws yr afon, wedyn dilynwch y ffyrdd i lawr drwy Drefriw i le cychwynnwyd y Tro.

Pellter: 7km / 4.3mi.

trefriw
outdoors | awyr agored

# Trail Trywydd 5



Main Image: Fairy Crafnant Valley